OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *20 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd y A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy (y cyfeirir ati yma wedi hyn “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2012.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o gefnffordd yr A470 a elwir Ffordd Berth Ddu, yn Llanrwst, Gwynedd sy'n ymestyn tua'r de-ddwyrain o bwynt 50 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad i'r eiddo a elwir ‘Plas Brith’ i bwynt 70 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r Ffordd Sirol ddiddosbarth, ddienw sy'n arwain at y B5427 a Melin y Coed.

3. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1995(2) drwy hyn wedi ei ddirymu.

4. Mae Gorchymyn (Amrywio) Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1995 2000(3) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 9 Chwefror 2012

*G R Morgan*

**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 1995/2692
**(3)** O.S. 2002/2585

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (LLANRWST, GWYNEDD) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA 2012**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy’n dod i rym ar 20 Chwefror 2012.

Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder 40 mya ar y darn hwnnw o Gefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy, a elwir Ffordd Berth Ddu, yn Llanrwst, Gwynedd sy'n ymestyn tua'r de-ddwyrain o bwynt 50 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad i'r eiddo a elwir ‘Plas Brith’ i bwynt 70 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r Ffordd Sirol ddiddosbarth, ddienw sy'n arwain at y B5427 a Melin y Coed.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos ar ôl 16 Chwefror 2012, gellir archwilio copi o’r Gorchymyn arfaethedig ynghyd â phlan yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Llanrwst, Plas yn Dre, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst LL26 0DF neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar y wefan yn: www.cymru.gov.uk (detholer ‘Deddfwriaeth’, ‘Is-ddeddfwriaeth’, ‘Offerynnau Statudol Lleol’, ‘Gorchmynion Traffig Parhaol’, ‘2012’).

Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cymru, y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

*M D Burnell*

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru